# Ras Gyfnewid “Mwsogl”

**Amser**: 10 – 15 munud **Lleoliad**: Coedwig / iard Yr Ysgol

**Cyfarpar:** 2 fwced i bob tîm / Dŵr / Darn o sbwng ymolchi / Ffon fesur / Stopwatsh

**Bwriad**: Deall bod mwsogl yn gallu dal llawer o ddŵr

**Pwnc:**
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Sgiliau:**
Llafaredd / rhifedd

**Beth i’w wneud:**

- Eglurwch fod mwsogl yn gallu dal hyd at 10 gwaith ei bwysau mewn dŵr, ag eich bod am chwarae gêm hwyliog i weld pa dîm sy’n gallu cario'r mwyaf o ddŵr o un bwced i’r llall gan ddefnyddio sbwng ymolchi.
- Rhannwch y grŵp i dimau.
- Paratowch ar gyfer y râs drwy roi un bwced llawn dŵr wrth y llinell ddechrau, a bwced wag oddeutu 5m i ffwrdd, gyda bwcedi bob tîm mewn rhes.
- Rhaid i’r person amsugno dŵr o’r bwced gyda’r sbwng, rhedeg at y bwced wag a gwasgu’r dŵr allan ohono, cyn rhedeg yn ôl at y llinell ddechrau a gadael i’r person nesaf wneud yr un peth.
- Ar ddiwedd y 2 funud, bydd yr arweinydd yn mynd o amgylch bob tîm gyda phren mesur a mesur faint o ddŵr y maent wedi llwyddo i’w gario i’w bwced. Y tîm sydd wedi cario'r mwyaf o ddŵr yw’r enillydd.





**Cwestiynau Allweddol**

- A oedd y sbwng yn amsugno’r dŵr yn hawdd?
- Wnaeth y sbwng ddal gymaint o ddŵr a all mwsogl?

NATURA 2000

Life

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Ras Gyfnewid "Mwsogl"

**Addasu ar gyfer gwahanol allu, anghenion neu Cyfnod Allweddol 2**

- Amrywio pellter y bwcedi o'r llinell ddechrau
- Amrywio maint y sbwng fel ei fod yn amsugno mwy / llai o ddŵr ar un waith

**Gwaith estynedig:**

- Mesur faint o ddŵr mae sbwng yn gallu amsugno
- Pwyso'r sbwng pan yn sych a'i gymharu wedi iddo amsugno'r dŵr
- Beth yw'r gwahaniaeth mewn pwysau?
- Ydy'r sbwng yn gallu dal 10 gwaith ei bwysau mewn dŵr?



COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES
NATURA 2000
Life